# Cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent (Chwarterol)

1:15 pm – 15:45 pm, Dydd Iau 14 Ebrill 2016

Ystafell Gyfarfod y Felin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ

**Yn bresennol (aelodau'r PCRh):**

Chris Edmunds, BIPAB, Cydlynydd y Rhaglen Mewn Un Lle
Chris Robinson, Cyngor Sir Fynwy, Prif Gomisiynydd, Sicrwydd Ansawdd a Chefnogi Pobl
Colin Jones, Reach, Rheolwr Tîm, Cynrychiolydd Darparwr Cymorth
Darren Daniel, Ymddiriedolaeth Brawf Cymru, Rheolwr Tîm
Elke Winton, CBS Torfaen, Rheolwr Grŵp Tai (Cadeirydd)
Julia Osmond, Iechyd Cyhoeddus, Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd
Nigel Stannard, CS Casnewydd, Rheolwr Cefnogi Pobl
Rachel Allen, Swyddog Polisi, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Sam Lewis, Llamau, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth y Dwyrain, Cynrychiolydd Darparwr

**Swyddogion Cymorth yn Bresennol:**

Angela Lee, Cydlynydd Datblygiad Rhanbarthol CP Gwent (Cofnodion)
Beth Covill, CP Torfaen, Rheolwr Dros Dro Cefnogi Pobl
Malcolm Topping, CP Caerffili, Rheolwr Cefnogi Pobl
Michelle Church, CP Blaenau Gwent, Rheolwr Cefnogi Pobl
Trudy Griffin, CP Sir Fynwy, Uwch Swyddog Comisiynu
Simon Rose, Casnewydd, Rheolwr Anghenion Tai

**Cyflwyniad:**

Phil Diamond, Arweinydd Thema, Tîm Trawsnewid Gwent

**Ymddiheuriadau:**

Alyson Hoskins, CBS Blaenau Gwent, Rheolwr Gwasanaeth
Dave Congreve, Trechu Tlodi, Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Torfaen
Donna Lemin, Llywodraeth Cymru, Rheolwr Llywodraethu ac Achredu CP
Hugh Irwin, United Welsh, Cynrychiolydd CIC
Neil Taylor, OPCC, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
Rhian Stone, Solas, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynrychiolydd Darparwr (Dirprwy Gadeirydd)
Richard Sheahan, Linc Cymru, Cynrychiolydd CIC
Viv Daye, CBS Caerffili, Rheolwr Gwasanaeth

| | Eitem/Trafodaeth | I'w weithredu gan |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a chyflwyniadau**<br>Croesawodd Elke Winton bawb i gyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent, a gwnaed y cyflwyniadau.<br><br>**Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod | |
| **2.** | **Trosolwg o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, gan bwysleisio pwyntiau sy'n berthnasol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl**<br><br>**Phil Diamond, Arweinydd Thema, Tîm Trawsnewid Gwent.**<br><br>Roedd y cyflwyniad yn darparu trosolwg manwl i'r aelodau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 a chyflwyniad y mesurau sydd eisoes wedi'u cyflwyno ac sy'n cael eu cyflwyno ar draws Gwent ers i'r Ddeddf ddod i rym ar Ebrill 6ed 2016.<br><br>Trafodwyd yr asesiad o anghenion y boblogaeth ranbarthol, a fydd yn weithredol erbyn mis Ebrill 2017, a phwysigrwydd cysylltu CP i hyn ac asesiadau anghenion eraill sydd wedi'u cwblhau, yn cynnwys Asesiad Strategol Gwent Mwy Diogel er mwyn osgoi dyblygu. Mae pecyn offer asesu anghenion y boblogaeth ar gael gan CLlLC ac mae'r uned ddata hefyd yn gwneud darn o waith i dîm trawsnewid Gwent.<br><br>Mae pecyn cymorth asesu anghenion poblogaethau ar gael gan CLlLC drwy'r ddolen hon: http://www.wlga.gov.uk/canolfan-y-cyfryngau-l-e-fwletinau-wlga/pecyn-cymorth-newydd-ar-gyfer-asesu-poblogaethau-yn-ol-deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cy<br><br>Y bwriad yw sefydlu bwrdd partneriaeth; a fydd yn seiliedig ar ôl troed bwrdd Llesgedd Gwent. Cafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd ffurfioli'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r PCRh ar ôl sefydlu'r bwrdd.<br><br>Trafodwyd gweithio'n agos gyda rhaglenni trechu tlodi eraill a dywedodd PD bod cyfarfod rhanbarthol o Arweinwyr Teuluoedd yn Gyntaf ac Arweinwyr Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu cynnal. Trafodwyd y posibilrwydd o gysylltu'r egwyddorion asesu ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y pedair rhaglen trechu tlodi. Cytunwyd i gyfethol hyrwyddwr trechu tlodi ar gyfer y PCRh fel arfer da er mwyn atgyfnerthu ymhellach y cysylltiadau rhwng y rhaglenni. | |

| | | |
|---|---|---|
| | <br><br>Diolchodd EW i PD am y cyflwyniad. Gadawodd PD y cyfarfod.<br><br>**Camau gweithredu:**<br>• **Dosbarthu'r cyflwyniad Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r cofnodion**<br>• **Sefydlu cysylltiadau rhwng y PCRh a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** | A<br>B |
| **3.** | **Cynnal a Chadw**<br><br>**Cofnodion / Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol (15/01/2016)**<br>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Mae'r camau gweithredu i'w cwblhau o'r cofnodion blaenorol naill ai wedi'u cwblhau, ar yr agenda neu'n aros i'w datblygu ymhellach.<br><br>**Camau Gweithredu i'w cwblhau:**<br><br>**LM i ddosbarthu eu hadroddiad diweddar ar ddangosyddion perfformiad allweddol i'r pwyllgor.**<br><br>**Dosbarthu'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol i'r Bwrdd Cynllunio Ardal.**<br><br>**Trafodwyd y mater o ariannu costau cyfieithu dogfennau cyhoeddedig y PCRh a chytunwyd bod angen eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru.**<br><br>**Drafftio fersiwn hawdd ei ddarllen o'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol: cytunwyd y byddai hyn yn cael ei amserlennu i'w ddatblygu eleni gyda Chynllun Comisiynu Rhanbarthol eleni.**<br><br>**Datganiad o unrhyw wrthdaro buddiannau**<br>Atgoffwyd yr aelodau gan EW o'r angen i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn cysylltiad â'r agenda. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o wrthdaro buddiannau.<br><br>**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**<br>Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gan bob ALl a BIPAB ac mae pob aelod wedi llofnodi Atodiadau A a B. Mae'r ddogfen wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru, mae ymholiad ynghylch llofnodwyr Iechyd Cyhoeddus, sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru yn awr.<br><br>Nid yw Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hawdd ei ddarllen wedi'i lunio eto oherwydd mae posibilrwydd y gallai fod angen ystyriaeth gyfreithiol ar gyfer y ddogfen hon; mae taflen ffeithiau ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i llunio i'w defnyddio gan aelodau'r PCRh ac eraill, i ddarparu trosolwg o beth yw Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y PCRh a'i ddiben. | <br><br><br><br><br><br><br>C<br><br>D<br><br>E<br><br><br>F<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>G |

| | | |
|---|---|---|
| | **Camau gweithredu:**<br>• **Llunio fersiwn hawdd ei ddarllen o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, i'w drafod gyda Llywodraeth Cymru**<br>• **Llywodraeth Cymru i gadarnhau llofnodwyr Iechyd Cyhoeddus ar gyfer tudalen 2 y ddogfen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.**<br><br>**Newidiadau i'r aelodaeth**<br><br>Estynnwyd croeso i Dave Congreve i'r pwyllgor, fel cynrychiolydd cyfetholedig Trechu Tlodi. Hysbyswyd y Pwyllgor mai Will McClain fydd dirprwy gynrychiolydd trechu tlodi.<br><br>Diolchwyd i Neil Binnell sydd wedi camu i lawr o'i swydd fel cynrychiolydd darparwr cymorth hirdymor. Roedd NB wedi bod yn gysylltiedig â PCRh Gwent ers ei sefydlu a diolchodd y Pwyllgor iddo am ei waith caled a'i ymrwymiad. Bydd CJ yn gwneud y swydd hon hyd nes y cynhelir yr etholiadau darparwyr cymorth ym mis Medi 2016.<br><br>Mae Vikki Hiscocks wedi camu i lawr o'i swydd fel dirprwy gynrychiolydd landlordiaid a diolchwyd iddi am ei gwaith. Cynghorwyd y CIC am y swydd wag a byddant yn hysbysebu'r swydd maes o law.<br><br>**Camau gweithredu:**<br>• **Anfon gwaith papur sefydlu'r PCRh at Will McClain a'i gynnwys mewn papurau a gohebiaeth yn y dyfodol fel y dirprwy Trechu Tlodi.** | H<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>I |
| **4.** | **Y Sefyllfa Ariannol yn erbyn y gyllideb**<br><br>➢ Canlyniadau trydydd chwarter Hydref 2015 – Rhagfyr 2015: cafodd y canlyniadau hyn eu dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth gyda'r agenda.<br><br>➢ Canlyniadau chwarter pedwar / olaf Ionawr 2016 - Mawrth 2016. Mae canlyniadau chwarter pedwar / olaf yn cael eu casglu yn awr gan ALl, mae Arweinwyr CP wedi dweud bod eu cyllidebau wedi'u gwario'n llwyr yn erbyn dyraniad y llynedd. Cafwyd cydnabyddiaeth ar gyfer y cofnodion bod hyn wedi bod yn gyfnod anodd iawn i dimau a oedd wedi bod yn gweithio i wneud toriadau sylweddol i'r gyllideb yn ystod y cyfnod hwn. Mae wedi bod yn bosibl cynyddu'r nifer o brosiectau lleol a rhanbarthol sydd wedi'u comisiynu, o'r arian sydd wedi'i arbed a darperir diweddariad o dan eitem 6 ar yr agenda ac eitem 8 yr agenda. Cynghorwyd y pwyllgor bod problem gyda'r daenlen Cynllun Gwario, a bod Llywodraeth Cymru wedi'u hysbysu ynglŷn â hyn; mae hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd Gwent yn cyflwyno'r canlyniad olaf rhanbarthol ar gyfer Ebrill 2015 - Mawrth 2016 erbyn terfyn amser Llywodraeth Cymru, sef Ebrill 30ain. Ar ôl ei gasglu, un o ofynion y grant yw bod Aelodau'r PCRh yn adolygu'r ddogfen hon yn ffurfiol a'i chymeradwyo.<br><br>➢ Dyraniad Cyllideb 2016-2017: Cynghorwyd y pwyllgor bod pob ALl wedi derbyn eu llythyrau dyraniad yn cadarnhau bod y cyllidebau yr un fath â chyllideb y llynedd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Camau gweithredu:**<br><br>**Mae angen hysbysu Llywodraeth Cymru o'r oedi posibl cyn dychwelyd canlyniad cyllideb derfynol 2015 – 2016.**<br><br>**Ar ôl ei gasglu, bydd angen dosbarthu canlyniad cyllideb derfynol i aelodau'r PCRh sydd â phleidlais ar gyfer craffu arno a'i gymeradwyo.** | J<br><br>K |
| **5.** | **Diweddariad Llywodraeth Cymru**<br><br>Diweddariad Llywodraeth Cymru 22 Chwefror 2016: *nodi'r papur yn y cofnodion*<br><br>Llythyr gan Ceri Breeze ar Atal Trais Domestig a Rhaglen Cefnogi Pobl: *i'w drafod*<br>Fe drafododd yr aelodau y newid i delerau ac amodau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl a chytunwyd, er bod yr hyblygrwydd yn cael ei groesawu, roedd risg y gellid ehangu cyflwyno'r grant i'r fath raddau y gallai hyn arwain at wanhau ei ddiben.<br><br>Cytunwyd bod y prosesau cynllunio strategol yng Ngwent yn gadarn a byddai'r dystiolaeth o angen ar gyfer prosiectau yn ddarostyngedig i'r broses hon, ochr yn ochr â blaenoriaethau a chynigion eraill. Byddai angen ystyried gwaith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i osod offer gwella diogelwch i eiddo ac amlygu unrhyw fylchau cyn i unrhyw wasanaeth gael ei gomisiynu.<br><br>Cynghorwyd y Pwyllgor bod yr arian cyfalaf a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn ariannol wedi'i wario. Roedd Llamau wedi prynu'r offer ac roeddent yn gweithio gyda ALl Gwent i ystyried sut y byddai'r offer yn cael ei ddosbarthu, ei osod, ei fonitro a'i atgyweirio.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyllid ychwanegol pe byddai CP yn cael ei ystyried fel y dull cyflawni ar gyfer comisiynu prosiectau gwella diogelwch; a fyddai'r arian mae ffynonellau eraill yn eu derbyn yn cael eu cyfeirio drwy'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl yn y pen draw?<br><br>Cynghorwyd y PCRh mai'r heddlu sy'n cynnal yr asesiad atal troseddau er mwyn sefydlu a yw'r offer gwella diogelwch yn briodol; trafododd y grŵp y newid i delerau'r grant a oedd yn golygu y gellid defnyddio cyllid CP i osod offer. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag effaith cydraddoldeb hyn o ran grwpiau eraill sy'n agored i niwed a oedd yn derbyn gwasanaethau a oedd yn cael eu hariannu drwy CP.<br><br>Roedd y llythyr wedi'i anfon hefyd at Fwrdd VAWDASV De-ddwyrain Cymru. Roedd yr ALl wedi hysbysu'r Bwrdd bod hyn yn newid i delerau ac amodau'r grant a fyddai'n cael ei drafod gan y PCRh. Rhoddodd AL drosolwg o'r prosesau Cynllunio Strategol CP i'r Bwrdd a dywedodd Rhian Bowen Davies | |

| | | |
|---|---|---|
| | bod y newid hwn wedi'i gyflwyno yn dilyn ymgynghoriad gyda darparwyr ac ALl ac yn dilyn ei chyngor i'r Gweinidog.<br><br>Mae cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Rhian Bowen Davies, yr Ymgynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn y Cartref, Cadeirydd PCRh Gwent a Dirprwy Gadeirydd PCRh Gwent, a'r gobaith yw y bydd eglurder pellach ar y newid i delerau ac amodau'r grant yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod hwn.<br><br>**Camau gweithredu:**<br>**Y newidiadau i delerau ac amodau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl i'w trafod yng nghyfarfod y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol.**<br><br>**Darparu diweddariad i aelodau'r PCRh ar ôl cyfarfod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y PCRh gyda'r Ymgynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Merched, Trais Domestig a Thrais Rhywiol.** | L<br><br>M |
| **6.** | **Diweddariadau'r ALl**<br><br>Cafodd adroddiadau chwarterol yr awdurdod lleol eu dosbarthu i'r aelodau gyda'r agenda.<br><br>Diweddariad ar y Prosiect Rhanbarthol:<br><br>Dywedodd yr Arweinwyr CP wrth Aelodau'r PCRh bod gwasanaeth rhanbarthol peilot ar gyfer sipsiwn a theithwyr wedi'i gomisiynu yn dilyn y prosiect pennu hyd a lled a gynhaliwyd yn 2015 a oedd yn amlygu anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai o'r cymunedau hyn.<br><br>Cytunwyd ar gyllid i ehangu'r swydd gweithiwr cam-drin domestig rhanbarthol sy'n gweithio gyda Merched Duon a Lleiafrifoedd Ethnig.<br><br>Roedd adolygiad wedi'i gynnal o gynlluniau rhanbarthol Gwent ar gyfer troseddwyr, ARMS a Throseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth, a lansiwyd y cynllun wedi'i ailfodelu, o'r enw Llwybrau Gwent o Ebrill 1af, sy'n darparu llwybrau atgyfeirio gwell a nifer uwch o unedau ar gyfer pobl sydd mewn perygl o aildroseddu, bydd y gweithwyr prosiect yn cynnal llwyth achos o anghenion a risgiau sydd angen cymorth uchel ac isel.<br><br>**Camau gweithredu:**<br>• **Dosbarthu gwybodaeth am gynllun Llwybrau Gwent ar gyfer troseddwyr pan fydd ar gael.** | N |
| **7.** | **Diweddariad Darparwyr**<br><br>Cynhaliwyd Fforwm Darparwyr Rhanbarthol Gwent ar Ionawr 28ain 2016 yn The Power Station yng Nghwmbrân.<br><br>Darparwyd cyflwyniad canlyniadau Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd i'r PCRh i'r Fforwm, a dywedodd y darparwyr ei bod yn ddefnyddiol iawn deall sut mae'r wybodaeth maent yn ei darparu yn cael ei dadansoddi gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyflwyniad hefyd yn amlygu meysydd y mae Gwent yn cynhyrchu llai o ganlyniadau o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, yn arbennig y maes canlyniad sy'n "hybu cynnydd economaidd a rheolaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | ariannol".<br><br>Trafodwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a darparwyd diweddariadau o gyfarfod y PCRh.<br><br>Cynhaliwyd gweithdy i ystyried effaith cyflwyno'r cyflog byw cenedlaethol a dywedodd pawb a oedd wedi mynychu'r gweithdy bod deall sut roedd eraill yn gweithio i weithredu gofynion y cyflog byw cenedlaethol wedi bod yn fuddiol iddynt.<br><br>Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar Ebrill 28ain 2016, bydd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys llythyrau Gweinidogol a oedd wedi'u hanfon yn ddiweddar at y PCRh a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.<br><br>**Diweddariad Landlordiaid**<br><br>Darparwyd papur i'r PCRh gyda'r agenda a oedd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau i'r uchafswm lwfans tai lleol a thai â chymorth. | |
| **8.** | **Adroddiad Cynnydd y PCRh**<br><br>Cafodd adroddiad cynnydd y PCRh ei gydnabod gan yr aelodau a'i nodi yn y cofnodion.<br><br>Adrodd ar is-grwpiau cynllun gwaith y PCRh:<br><br>➢ **Anableddau dysgu:** cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Penaethiaid Gwasanaethau yng nghyfarfod y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r sylwadau wedi'u cynnwys yn y ddogfen derfynol.<br>o Cymeradwyodd aelodau'r PCRh yr argymhellion yn yr adroddiad a chafodd y ddogfen ei chymeradwyo'n ffurfiol.<br>o Cytunwyd y byddai adroddiadau diweddaru'n cael eu darparu i'r pwyllgor bob chwe mis.<br><br>➢ **Is-grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth**<br>o Mae'r wefan wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg ac wedi'i throsglwyddo i'r cwmni cynnal Amity.<br>o Mae'r grŵp yn cwrdd yn ystod yr wythnosau nesaf i gadarnhau'r wybodaeth a fydd yn cael ei llwytho i'r safle.<br>o Gofynnwyd i'r darparwyr ddychwelyd trosolwg byr o'u sefydliad.<br>o Bydd ap symudol ar gael ochr yn ochr â'r wefan weithredol.<br>o Y gobaith yw y bydd ar gael i'w phrofi yn y digwyddiad cynllunio anghenion rhanbarthol i randdeiliaid ac ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewn digwyddiadau lleol.<br>o Mae'r grŵp wedi trafod cynnal digwyddiad lansio ar ôl yr haf.<br><br>➢ **Is-grŵp Pobl Hŷn**<br>o Cafodd y grŵp ei ailgynnull i ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad pobl hŷn a gyhoeddwyd yn ddiweddar. | |
| **9.** | **Diwrnod Datblygu'r PCRh**<br><br>Trafodwyd sesiwn ddatblygu'r PCRh a chytunwyd y byddai angen ystyried y | |

| | | |
|---|---|---|
| | llythyrau a oedd wedi'u hanfon gan y Gweinidog yn ddiweddar at y PCRh, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gwybodaeth am y canlyniadau dadansoddi, ac adolygiad o gynllun gwaith 2015-2016 yn y cyfarfod hwn. Mae'r lleoliad wedi'i drefnu ac mae'n cael ei gynnal mewn cynllun pobl hŷn yn y Blaenau.<br><br>**Cam gweithredu:**<br><br>**Llunio'r agenda ar gyfer sesiwn Ddatblygu'r PCRh.** | O |
| **10.** | **Adolygiad Blynyddol 2016**<br><br>Dosbarthwyd cwestiynau Llywodraeth Cymru ar gyfer adolygiad blynyddol eleni i'r aelodau. Cytunwyd y byddai angen darparu enghreifftiau o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn adolygiad eleni. Cytunwyd y byddai llyfryn astudiaeth achos Gwella Bywydau, Lleihau Costau a'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu gwasanaethau i bobl ag Anableddau Dysgu yn cael ei ddarparu fel enghreifftiau astudiaethau achos.<br><br>AL i gasglu a drafftio'r ddogfen; darparu copi o'r drafft i aelodau'r PCRh a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30ain 2016<br><br>**Cam gweithredu:**<br>**Gofyn am fewnbwn aelodau'r PCRh i adolygiad blynyddol eleni a chynghori'r aelodau ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer cyfranogi ac ymateb.** | P |
| **11.** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Diweddariad Prawf:** Mae swyddogion yn treulio mwy o amser yn gweithio yn y gymuned ac maent yn trefnu canolfannau cymunedol ac yn chwilio am ddesgiau i weithio ohonynt.<br><br>Mae Swyddfa Casnewydd yn cynnwys y wardiau hyn yn awr: Coed Duon, Penmaen, Pontllan-fraith, Trecelyn, Ynysddu, Abercarn, Cross keys, Y Bontnewydd ar Ŵy, Dwyrain a Gorllewin Rhisga, Holl Wardiau Casnewydd, Wardiau Gogledd-ddwyrain a De Sir Fynwy.<br><br>Swyddfa Glynebwy sy'n gyfrifol yn awr am y wardiau o amgylch Y Fenni. Bydd hyn yn weithredol ar unwaith.<br><br>**Diweddariad Iechyd y Cyhoedd:** Mae llwybr integredig o driniaeth alcohol wedi'i sefydlu mewn ysbytai gyda nyrsys Gofal Alcohol yn gweithio yn ysbyty Nevill Hall.<br><br>Datblygiad Tŷ Gwlyb ar gyfer y rhai â phroblemau alcohol parhaus, bydd pedwar aelod etholedig yn ymweld â Phrosiect Shoreline Caerdydd yng Nghaerdydd er mwyn edrych ar arfer gorau yn y maes hwn.<br><br>Prosiect pryder alcohol – prosiect Blue Light, sy'n cael ei sefydlu fel cynllun peilot sy'n darparu gwaith allgymorth drwy GDAS.<br><br>Mae Asesiad Anghenion Gofal Iechyd ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar fin dechrau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r daflen Clinigau Iechyd Rhyw wedi'i diweddaru.<br><br>Yr adroddiad ar gyn-filwyr, pobl hŷn ac unigedd i'w ddosbarthu.<br><br>**Camau gweithredu:**<br><br>**Dosbarthu'r daflen Iechyd Rhyw**<br><br>**Dosbarthu'r wybodaeth am y gwasanaethau i gyn-filwyr, pobl hŷn ac unigedd** | Q<br><br>R |
| | Dyddiad/amser y cyfarfod nesaf: 14eg Gorffennaf 2016 13:15 pm<br><br>**<u>Ystafell Gyfarfod y Felin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ</u>** | |

# PCRh Gwent

1:15 pm – 15:45 pm, Dydd Iau 14 Ebrill 2016

## Camau Gweithredu'r Cyfarfod

| CAM GWEITHREDU | RHIF YR EITEM AR YR AGENDA | CAM GWEITHREDU | I'W GWBLHAU GAN |
|---|---|---|---|
| A | 2 | **Dosbarthu'r cyflwyniad Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r cofnodion** | AL |
| B | 2 | **Sefydlu cysylltiadau rhwng y PCRh a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** | AL |
| C | 3 | **LM i ddosbarthu eu hadroddiad diweddar ar ddangosyddion perfformiad allweddol i'r pwyllgor.** | JO |
| D | 3 | **Dosbarthu'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol i'r Bwrdd Cynllunio Ardal.** | JO |
| E | 3 | **Trafodwyd y mater o ariannu costau cyfieithu dogfennau cyhoeddedig y PCRh a chytunwyd bod angen eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru.** | AL/DL |
| F | 3 | **Drafftio fersiwn hawdd ei ddarllen o'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol: cytunwyd y byddai hyn yn cael ei amserlennu i'w ddatblygu eleni gyda Chynllun Comisiynu Rhanbarthol eleni.** | AL |
| G | 3 | **Llunio fersiwn hawdd ei ddarllen o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, i'w drafod gyda Llywodraeth Cymru** | AL/DL |
| H | 3 | **Llywodraeth Cymru i gadarnhau llofnodwyr Iechyd Cyhoeddus ar gyfer tudalen 2 y ddogfen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.** | DL |

| | | | |
|---|---|---|---|
| I | 3 | **Anfon gwaith papur sefydlu'r PCRh at Will McClain a'i wahodd i gyfarfod nesaf y PCRh.** | AL |
| J | 4 | **Mae angen hysbysu Llywodraeth Cymru o'r oedi posibl cyn dychwelyd canlyniad cyllideb derfynol 2015 – 2016.** | AL |
| K | 4 | **Ar ôl ei gasglu, bydd angen dosbarthu canlyniad cyllideb derfynol i aelodau'r PCRh sydd â phleidlais ar gyfer craffu arno a'i gymeradwyo.** | AL |
| L | 5 | **Y newidiadau i delerau ac amodau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl i'w trafod yng nghyfarfod y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol.** | SL |
| M | 5 | **Darparu diweddariad i aelodau'r PCRh ar ôl cyfarfod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y PCRh gyda'r Ymgynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Merched, Trais Domestig a Thrais Rhywiol.** | EW/RS |
| N | 6 | **Dosbarthu gwybodaeth am gynllun Llwybrau Gwent ar gyfer troseddwyr pan fydd ar gael.** | BC |
| O | 9 | **Llunio'r agenda ar gyfer sesiwn Ddatblygu'r PCRh.** | EW/AL/ Arweinwyr CP |
| P | 10 | **Gofyn am fewnbwn aelodau'r PCRh i adolygiad blynyddol eleni a chynghori'r aelodau ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer cyfranogi ac ymateb.** | AL |
| Q | 11 | **Dosbarthu'r daflen Iechyd Rhyw** | JO |
| R | 11 | **Dosbarthu'r wybodaeth am y gwasanaethau i gyn-filwyr, pobl hŷn ac unigedd** | JO |